

CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL



Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd mewn modd hybrid nos Lun 11 o Orffennaf 2022 am 7:00pm.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Menna Jones (Maer),
Cynghorwyr Stephen Beach, Oliver Bradley-Hughes, Mike van der Eijk,
Christine Ellis, Gavin Harris, Dafydd Hughes, Ian Lewney, Jabez Redfern
Oakes, Lisa Thomas, Anne Roberts a Rachel Ryland.

YN BRESENNOL: Hefyd Cynghorwyr Sir Lleol: Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne
Siân Clark – Clerc y Dref
Kate Harcus – Dirprwy Glerc Rhuthin
Marian Rees - Cyfieithydd

CROESO

Croesawyd pawb a oedd yn bresennol yn gynnes gan y Maer yn enwedig yr Aelodau a oedd newydd eu cyfethol. Adroddwyd bod £550 wedi'i godi at elusennau'r Maer yn y digwyddiad Caws a Gwin yn ddiweddar a diolchwyd yn gynnes i'r rhai a fynychodd neu a gyfrannodd. Roedd gwasanaeth y Sul Dinesig wedi'i gynnal yng Nghapel y Tabernacl y diwrnod cynt gyda gwsteion yn cael eu gwahodd i'r dderbyniad yn Yr Hen Lys; diolchwyd i'r rhai a fynychodd. Yn ogystal, ar y Sul Dinesig, i gydnabod y Maer, llwyddodd Canwyr Clychau San Pedr i gwblhau 'peal' llawn, dros dair awr, y tro cyntaf ers adfer y clychau yn 2019, gyda 'peal' llawn blaenorol ym 1951 a 1879. Mynychodd y Maer a'r Dirprwy Faer wasanaeth Blwyddyn 6 yn San Pedr ac hefyd groesawant staff a myfyrwyr o Goleg Derwen. Ar nodyn tristach, ar ran y Cyngor Tref, mynychodd y Maer angladd Mari Hughes, a fu, gyda'i diweddar ŵr Gwyn, yn goruchwyllo dyfrio'r planwyr blodau y dref am flynyddoedd lawer.

59. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Heather Williams a'r Cynghorydd Sir Bobby Feeley. Roedd PS Rich Evans wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau oherwydd ymrwymadau gwaith.

60. DATGAN BUDDIANNAU

Bu i'r Cynghorydd Anne Roberts ddatganiad o ddi-ddordeb yn eitem 14 (*cofnod 72*) fel Cadeirydd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.

61. PLISMONA CYMUNEDOL LLEOL

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i adroddiad gan y Rhingyll Rich Evans, a ranwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn amlinellu blaenoriaethau presennol ardaloedd plismona a blaenoriaethau lleol. Croesawodd y Cynghorwyr Tref gynnwys yr adroddiad a chanmol gwaith y tîm plismona lleol. Tra'n cydnabod bod gyrru gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn broblem, roedd yn galonogol derbyn adroddiad cadarnhaol ar y cyfan.

PENDERFYNWYD: *nodi adroddiad ysgrifenedig y Rhingyll Rich Evans ar blismona cymunedol lleol.*

62. ADRODDIAD Y MAER

Roedd adroddiad y Maer wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

63. ADRODDIADAU'R AELODAU

Roedd Adroddiad yr Aelodau wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw a diolchwyd i bawb am eu gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiadau'r Aelodau.*

64. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR LLEOL

Roedd adroddiad y Cyngorwyr Sir, fel y'i cyflwynwyd gan y Cyngorydd Emrys Wynne, wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad y Cyngorwyr Sir Lleol.*

65. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *(i) cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 o Fehefin 2022 fel cofnod cywir; a (ii) cadarnhau cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir, yn amodol ar y cywiriad a ganlyn: i gynnwys y Cyngorydd Heather Williams fel un a oedd yn bresennol.*

66. MATERION YN CODI

Dim.

67. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022. Darparodd y Cyng Jabez Redfern Oakes, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fanylion pellach yn ymwneud â'r cais canlynol: '02/2022/0561 Cyn Ysgol Stryd y Rhos, Stryd y Rhos, Rhuthun' a chynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd bod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r cais, a bod rhesymau dros y gwrthwynebiad yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.

PENDERFYNWYD: *(i) derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022; a (ii) gwrthwynebu cais cynllunio '02/2022/0561 Hen Ysgol Stryd y Rhos, Stryd y Rhos, Rhuthun' a bod rhesymau dros y gwrthwynebiad yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir drwy'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.*

68. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 o Orffennaf 2022.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 4 o Orffennaf 2022.*

69. YMDDISWYDDIAD CYNGHORYDD TREF

Cyhoeddodd y Maer ei bod hi a Chlerc y Dref wedi derbyn llythyr ymddiswyddiad oddi wrth y cyn Gyngorydd Ethan Jones ac y bod yr ymddiswyddiad yn dod i rym o 7 Gorffennaf 2022. Ar ran y Cyngor Tref, diolchodd y Maer i Ethan Jones am ei wasanaeth ers ei ethol y llynedd. Dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau, yn dilyn yr ymddiswyddiad, fod gan Cyngor Tref bellach sedd wag achlysurol ac y byddai'r broses briodol yn cael ei chyflawni i lenwi'r sedd hynny.

PENDERFYNWYD: *nodi ymddiswyddiad y cyn Gyngorydd Tref Ethan Jones o 7 Gorffennaf 2022, ac y byddai'r broses briodol yn cael ei chyflawni i lenwi'r sedd wag achlysurol.*

70. CWININGAR Y CASTELL

Adroddodd y Clerc, yn dilyn cais gan y Cyngor Tref am ddiweddariad gan Gyngor Sir Ddinbych ar sefyllfa cau Cwningar y Castell yn dilyn cwmp i rhannau o'r wal, derbyniwyd e-bost yn hysbysu bod trafodaethau gyda pherchennog yr eiddo yn parhau. Mynegodd aelodau'r Cyngor Tref bryder mawr fod Cwningar y Castell yn parhau i fod ar gau ac anogwyd y Cyngor Sir am fwy o eglurder ynghylch y cynnydd a'r amserlenni er mwyn hysbysu trigolion ac ymwelwyr. Mewn digwyddiad blaenorol bu i Gwningar y Castell fod ar gau am dair blynedd a gofynnodd y Cyngor Tref am gamau i sicrhau bod y sefyllfa bresennol yn cael ei hunioni ar fyrder er mwyn osgoi cyfnod hir arall o gau. Cydnabu'r Cynghorwyr Sir y rhwystredigaeth ar ddatrys y materion i ail-agor Cwningar y Castell en ac awgrymwyd y gallai fod oherwydd ffactorau cyfreithiol.

PENDERFYNWYD: *bod y Cyngor Tref, trwy'r Clerc, yn ysgrifennu at Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ac at yr Aelod Cabinet Emrys Wynne i geisio ymateb cynhwysfawr ar y sefyllfa gyfredol Cwningar y Castell ac eglurder ar yr amserlen ar gyfer ail-agor.*

71. CAIS CRONFA FFYNIANT BRO

Rhodddwyd diweddariad i'r Cyngor Tref ar y cais i'r Gronfa Ffyniant Bro. Yn dilyn penderfyniad gan Gyngor Sir Conwy, byddai dau gais ar wahân nawr yn cael eu cyflwyno gan y Cynghorau Sir yn Etholaeth Gorllewin Clwyd, un o Gonwy a'r llall gan Sir Ddinbych. Deellir bod llythyr cymhellol, yn cefnogi cais Sir Ddinbych, wedi dod i law oddi wrth David Jones AS.

Cydnabuwyd y gwaith a wnaed gan y tîm o fewn Cyngor Sir Ddinbych ar y cais. O ystyried y mewnbwn gan lawer o gyrff a sefydliadau lleol wrth ddatblygu'r cais, dywedwyd y byddai angen adborth amserol ar ganlyniad y cais ynghyd â chyfathrebu cryfach. Dywedwyd bod y porth ceisiadau ddim wedi ei agor eto, ond y digwyf oedd y bydd ymateb i'r broses ymgeisio yn cyd-fynd â datganiad yr Hydref.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad a ddarparwyd ar y Broses Ymgeisio i'r Gronfa Ffyniant Bro.*

72. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Bu'r aelodau'n ystyried cais gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch am gymorth ariannol o £1,500 fel cyfraniad i gefnogi argraffu taflenni gwybodaeth ar gyfer penwythnos Drysau Agored ar 10 a 11 Medi 2022.

PENDERFYNWYD: *darparu cymorth ariannol o £1,500 i Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch i gefnogi argraffu taflenni gwybodaeth ar gyfer penwythnos Drysau Agored ym mis Medi 2022.*

73. TREFNIADAU AR GYFER CYNNAL PWYLLGOR PWERAU BRYD

Cynigiodd yr Aelodau y dylid cynnal y cyfarfod ddydd Llun, 15 Awst 2022 am 7pm gyda'r Maer, y Dirprwy Faer ac unrhyw gynghorwyr eraill sydd ar gael yn bresennol.

PENDERFYNWYD: *cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Pwerau Argyfwng i ymdrin ag unrhyw faterion cynllunio a chyfrifon i'w talu ar 15 Awst 2022, gyda'r agenda i'w dosbarthu i'r holl aelodau er gwybodaeth.*

74. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyniwyd ac ystyriwyd y datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2022 gan yr Aelodau.

PENDERFYNWYD: *derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2022.*

75. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt ar gyfer mis Gorffennaf 2022		£425.34
OB	Canda Copying	Costau copio 21/3/22 - 30/06/22	*	£74.21
OB	Canda Copying	Rhentu copiwr 01/07/22 - 30/09/22	*	£41.90
OB	One Voice Wales	Aelodaeth i Un Llais Cymru 2022/2023		£990.00
OB	Sandra Williams	Cyfieithu ar y pryd: 16/05/2022	*	£90.00
OB	Sandra Williams	Cyfieithu 3x Stori Rhuthun	*	£253.08
OB	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd 3 & 23 Mai 2022	*	£180.00
OB	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd 13 & 20 Mehefin 2022.	*	£180.00
OB	Birmingham City University	Cymorth at gostau teithio i fyfyrwyr y prosiect co-lab o Birmingham i Ruthin: 2/03/2022		£520.00
OB	J&C Brimble	Dyfrío'r basgedi crog – 26/5/22 - 25/06/22		£1,100.00
OB	Meals on Wheels	Darparu lluniaeth ar gyfer Cofiant 40 Gwrthryfel y Falklands.		£267.75
OB	Cllr Gavin Harris	Ad-daliad costau lluniaeth (Co-op)		£14.80
OB	Kate Harcus	Ad-daliad costau lluniaeth (Co-Op) ar gyfer Cofiant y Falklands a ymweliad gan Goleg Derwen		£6.00
OB	Viking	Nwyddau i'r swyddfa	*	£69.49
OB	Ann Jones	Darparu lluniaeth ar gyfer Sul y Maer		£1,000.00
O gyfrif Yr Hen Lys				
OB	Denbighshire CC	Ardrethi Annomestig (5ed o ddeg taliad)		£524.00
OB	Kelletrics	Gosod Socedi 32A a soced dwbl	*	£390.00
OB	Kate Harcus	Ad-daliad – eitem o Ruthin Decor	*	£4.15
OB	Kate Harcus	Ad-daliad – eitem o Elfair 2 lyfr/map		£20.48
OB	Kate Harcus	Ad-daliad – eitemau i'r Hen Lys (Co-Op)		£16.70
OB	Kate Harcus	Ad-daliad – eitemau i'r Hen Lys (B&M)		£5.48

(mae'r eitemau a nodwyd a * yn cynnwys above include TAW a caiff ei adennill)

76. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: Cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar 26 o Fedi 2022 am 7.00. p.m.

77. GWAHARDDIAD Y WASG A'R CYHOEDD

Cynigiodd y Cadeirydd, ac fe'i eiliwyd, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. (fel yr amlinellir ym mharagraff 3: Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).

78. FELODROM ARFAETHEDIG RHUTHUN

Cafwyd diweddariad ar y prosiect gan y Cynghorydd Gavin Harris, cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Fwrdd Rheoli Prosiect Strategol Felodrom Rhuthun arfaethedig.